# Beth amdani?

## Give it a go!

# 2016

**Cystadlaethau i Ddysgwyr**

Competitions for Welsh learners

---

**Eisteddfod Genedlaethol**
**Sir Fynwy a'r Cyffiniau**
**National Eisteddfod**
**Monmouthshire and District**





# Croeso

# Welcome

**Yn 2016 mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Sir Fynwy a'r Cyffiniau. Mae'r Eisteddfod yn ŵyl arbennig ac yn gyfle perffaith i ymarfer eich Cymraeg.**

Mae llawer o gystadlaethau yn yr Eisteddfod, ond yn y llyfryn hwn mae gwybodaeth am y cystadlaethau sy'n arbennig i ddysgwyr. Gallwch gystadlu yn y cystadlaethau cyfansoddi hyd yn oed os na fyddwch chi yno.

Os ydych chi'n dod i'r Eisteddfod, cewch ddod i Maes D, pabell y dysgwyr ar y Maes. Gyda phob math o weithgareddau a gwybodaeth, dyma'r lle perffaith i ymarfer eich Cymraeg dros baned. Bydd croeso cynnes i chi yno!

## Pam cystadlu?

- Bydd yn rhoi mwy o hyder i chi
- Mae'n gyfle i gyfarfod a rhannu profiadau gyda dysgwyr eraill
- Gwobrau da
- Mae'n hwyl!

**The National Eisteddfod will be held in Monmouthshire and the surrounding area in 2016. The Eisteddfod is a fantastic festival and is a perfect opportunity to practise your Welsh**

There are many competitions at the Eisteddfod, but this booklet gives you information about the competitions that are specifically for learners. Even if you don't join us at the Eisteddfod you can compete in the written competitions.

If you are planning to visit the Eisteddfod, remember there are activities and information for you at Maes D, the centre for learning Welsh on the Maes. It's the perfect place to practise your Welsh over a cuppa. A warm welcome awaits you!

## Why compete?

- It'll boost your confidence
- It's a chance to meet and share experiences with other learners
- Good prizes
- It's fun!

## Dyddiadau cau

**Cyfansoddi – 1 Ebrill 2016**
**Llwyfan – 1 Mai 2016**

**Canllawiau Cystadlu i Ddysgwyr**
Mae'r cystadlaethau ar gyfer dysgwyr Cymraeg dros 16 mlwydd oed.

**Mynediad:**
wedi derbyn hyd at 120 o oriau cyswllt
**Sylfaen:**
wedi derbyn hyd at 240 o oriau cyswllt
**Canolradd:**
wedi derbyn hyd at 360 o oriau cyswllt
**Agored:**
Cystadlaethau sy'n agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r iaith Gymraeg fel oedolyn hyd at ac yn cynnwys Lefel Uwch, ac i'r rhai sydd yn, neu wedi, astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn yr ysgol uwchradd.

## Oeddech chi'n gwybod...

**Cystadlaethau cyfansoddi**
Fe allwch chi ddarllen sylwadau'r beirniaid yn llyfr y 'Cyfansoddiadau a Beirniadaethau' sy'n cael ei gyhoeddi ar ddiwedd wythnos yr Eisteddfod?

**Grwpiau canu a llefaru**
Os ydych yn teithio mwy na 40 milltir i'r Eisteddfod, mae'n bosibl y gallwch chi hawlio costau teithio os oes deg neu fwy yn eich grŵp. Edrychwch ar y Rhestr Testunau (ar www.eisteddfod.cymru) neu cysylltwch â swyddfa'r Eisteddfod am fwy o wybodaeth.

## Sut i gystadlu?

**Cystadlaethau llwyfan**

—— Ffurflen cystadlaethau llwyfan (ffurflen ar dudalen 11, cofiwch lenwi ffurflen ar wahan i bob cystadleuaeth – mae'n bosibl ei llungopio)
—— Mae'n bosib llenwi'r ffurflen ar-lein – www.eisteddfod.cymru
—— Siec am y swm cywir i 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru'
—— Amlen A5 gyda'ch cyfeiriad a stamp arno er mwyn i chi dderbyn manylion y cystadlu. Byddwch yn derbyn y manylion ym mis Gorffennaf
—— Ar gyfer cystadlaethau 113, 115 a 117 danfonwch gopi o'r gân neu'r gerdd i Swyddfa'r Eisteddfod yn yr Wyddgrug cyn 5 Gorffennaf.

**Cystadlaethau cyfansoddi**

—— Ffurflen cystadlaethau cyfansoddi (ffurflen ar dudalen 12, cofiwch lenwi ffurflen ar wahan ar gyfer pob cystadleuaeth – mae'n bosibl ei llungopio)
—— Mae'n bosib llenwi'r ffurflen ar-lein – www.eisteddfod.cymru
—— Siec am y swm cywir i 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru'
—— Amlen wedi'i chau gyda darn o bapur ynddi sy'n cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad. Peidiwch â rhoi unrhywbeth arall yn yr amlen hon heblaw'r darn yma o bapur. Ar flaen yr amlen hon, rhowch eich ffugenw a theitl a rhif y gystadleuaeth. Dyma'r amlen fydd yn cael ei hagor os ydych yn ennill y gystadleuaeth.
—— Cofiwch gynnwys eich gwaith!

***Postiwch eich cais at:***
**Y Trefnydd**, Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Uned 15, Parc Busnes Yr Wyddgrug
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 1XP



## Closing dates

**Written competitions – 1 April 2016**
**Stage competitions – 1 May 2016**

**Competition Guidelines for Learners**
The competitions are for Welsh learners over 16 years old.

**Entry:**
received up to 120 contact hours
**Foundation:**
received up to 240 contact hours
**Intermediate:**
received up to 360 contact hours
**Open:**
Competitions open to anyone who has learnt Welsh as an adult up to and including the Higher Level, and to individuals who are studying, or have studied, Welsh as a second language in secondary school.

## Did you know...

**Written competitions**
You can read the adjudicators' comments in the 'Cyfansoddiadau a Beirniadaethau' book which is published at the end of the Eisteddfod week.

**Singing and recitation groups**
If you travel more than 40 miles to the Eisteddfod, you may be able to claim travelling expenses if there are ten or more in your group. Look at the 'Rhestr Testunau' booklet (on www.eisteddfod.wales) or contact the Eisteddfod's office for more information.

## How to compete?

**What do you need to include in order to compete?**

**Stage competitions**

—— Stage competitions form (form on page 11, remember to complete a separate form for each competition – the form can be photocopied)
—— You can fill in the form online – www.eisteddfod.wales
—— A cheque for the correct amount payable to 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru'
—— A self-addressed, stamped A5 envelope to receive the details of the competition. You will receive the information in July.
—— For competitions 113, 115 and 117 please send a copy of the song or poem to the Eisteddfod's office in Mold before 5 July.

**Written competitions**

—— Written competitions form (form on page 12, remember to complete a separate form for each competition – the form can be photocopied)
—— You can fill in the form online – www.eisteddfod.wales
—— A cheque for the correct amount payable to 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru'
—— A sealed envelope with a piece of paper inside which includes your name and address. Don't place anything else in this envelope apart from this piece of paper. On the front of this envelope, write your pseudonym and the title and number of the competition. This envelope will be opened if you win the competition.
—— Remember to include your work!

***Post your application to:***
**Y Trefnydd**, Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Uned 15, Parc Busnes Yr Wyddgrug
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 1XP


Roedd yn anrhydedd i glywed ein bod wedi ennill
Roedd y cystadlu yn ymgais tîm
There is a feeling of exhilaration at being called out on to the stage and having the Archdruid call out 'A oes heddwch? '
Roedd yr holl baratoi cyn yr Eisteddfod, sef ymarfer gyda cyd-bartiwyr yn werth chweil ac yn lot o hwyl
Braint oedd bod yn rhan o ddiwylliant Cymreig
Ennill teitl Dysgwr y Flwyddyn ydi un o'r profiadau gorau dw i erioed wedi cael... Mae'n fraint enfawr cael y cyfle i fod yn llysgenhadwr dros ddysgwyr ar draws Cymru
It was a challenge
Taking part was the most important thing
Roedd yn hwyl cael bod ar lwyfan

## Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn

**Mae cystadleuaeth 'Dysgwr y Flwyddyn' yn dangos bod modd dysgu Cymraeg a gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd ein cymunedau Cymraeg. Mae hefyd yn annog pobl eraill i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.**

Os ydych chi'n ddysgwr sydd dros 18 mlwydd oed, sydd yn siarad yr iaith yn eithaf rhugl, beth am gystadlu am wobr 'Dysgwr y Flwyddyn 2016'? Neu efallai'ch bod yn adnabod rhywun sy'n haeddu ennill y gystadleuaeth? Beth am eu henwebu?

**Sut i gystadlu?**
Gallwch enwebu'ch hun, neu gall tiwtor neu unrhyw berson arall enwebu dysgwr drwy lenwi'r ffurflen gais ar dudalen 10.

## Mwy o wybodaeth

**Dyddiad Cau**
**31 Mawrth 2016**

**Gwobrau**
Tlws Dysgwr y Flwyddyn a £300 i'r enillydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent); Tlysau i'r tri arall sy'n ymddangos yn y Rownd Derfynol ynghyd â £100 i bawb arall sy'n ymddangos yn y rownd derfynol (Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent); Tanysgrifiad blwyddyn yr un gan cylchgrawn Golwg i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rownd derfynol. Cydnabyddir hefyd roddion gan fudiad Merched y Wawr i'r pedwar sy'n cyrraedd y Rownd Derfynol. Caiff yr enillydd wahoddiad i fod yn aelod o'r Orsedd.

## Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno cais?

Mae pawb sy'n gwneud cais yn cael gwahoddiad i fynychu'r rownd gyn-derfynol a gynhelir yn ystod gwanwyn 2016. Yn y rownd gyn-derfynol byddwch yn cael eich cyfweld gan y beirniaid, sef Elwyn Hughes, Sandra De Pol a Angharad Mair.

Yn y rownd gyn-derfynol bydd y beirniaid yn dewis 4 cystadleuydd i gystadlu yn y rownd derfynol yn ystod wythnos yr Eisteddfod a gynhelir eleni yn Y Fenni. Bydd enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi yn y Noson Wobrwyo nos Fercher, 3 Awst.

***Noder:***
*Ar y ffurflen gais, gall yr enwebydd neu'r cystadleuydd lenwi'r manylion o dan y cwestiynau.*

***Postiwch eich cais i:***
**Swyddog y Dysgwyr**
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
40 Parc Tŷ Glas, Llanishen
Caerdydd CF14 5DU



## The 'Learner of the Year' competition

**The 'Learner of the Year' competition demonstrates how people can learn Welsh and make a valuable contribution to our Welsh communities. It also encourages others to learn and make use of the Welsh language.**

If you are a learner over 18 years old, who speaks the language quite fluently, then how about competing for 'Learner of the Year 2016'? Or maybe you know someone who deserves to win the competition? How about nominating them?

**How to compete?**
You can nominate yourself, or a tutor or any other person can nominate a learner by filling the application form on page 10.

## More information

**Closing Date**
**31 March 2016**

**Prizes**
The winner will receive the Learner of the Year Trophy and £300 (sponsored by Gwent Welsh for Adults Centre), The other three in the final round will receive a trophy and £100 each (sponsored by Gwent Welsh for Adults Centre); The four in the final round will each receive a one year subscription to the magazine Golwg and prizes from Merched y Wawr. The winner will receive an invitation to become a member of the Orsedd.

## What happens after submitting an entry?

Everyone who submits an entry is invited to attend the semi-final held in Spring 2016. In the semi-final you will be interviewed by the judges, Elwyn Hughes, Sandra De Pol and Angharad Mair.

In the semi-final, judges will select the 4 competitors to take part in the final during the week of the Eisteddfod held this year in Abergavenny. The winner will be announced at the evening Ceremony on Wednesday, 3 August.

***Take note:***
*On the application form, the nominator or learner can fill in the details under the questions.*

***Post your application to:***
**Learners Officer**
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
40 Parc Tŷ Glas, Llanishen
Caerdydd CF14 5DU

## Ffurflen Dysgwr y Flwyddyn
## Learner of the Year form

**Manylion y cystadleuydd / Competitor's information**

Enw / Name Ebost / Email

Cyfeiriad / Address

Rhif(au) ffôn / Phone number(s)

Llofnod / Signature

**Manylion yr enwebydd (gadewch yn wag os ydych yn enwebu'ch hun)**
**Details of nominator (please leave empty if you're nominating yourself)**

Enw / Name Ebost / Email

Cyfeiriad / Address

Rhif(au) ffôn / Phone number(s)

Llofnod / Signature

**Nodwch wybodaeth gyffredinol (tua 1 tudalen A4)**
**Please note general information (about 1 page A4)**

Gwybodaeth am deulu a diddordebau
Information about family and interests

Rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg
Reasons for learning Welsh

Sut y dysgodd y dysgwr Gymraeg
How the learner learnt Welsh

Effaith dysgu'r Gymraeg ar fywyd y dysgwr a'r defnydd y mae'n ei wneud o'r Gymraeg
The impact of learning Welsh on the learner's life and making use of the Welsh language

Gobeithion ar gyfer y dyfodol
Hopes for the future



## Ffurflen Cystadlaethau Llwyfan
## Stage Competitions Form

Teitl y gystadleuaeth / Title of competition Rhif / No.

Enw'r grŵp neu'r unigolyn / Name of group or individual

Nifer o aelodau yn y grŵp / No. of members in the group

Tâl amgaeedig / Fee enclosed:
(rhaid talu ffi ar gyfer bob cystadleuaeth / a separate fee must be paid for each competition):

- ◯ Unigolyn / Individual: £10 (Plant ysgol / School children – £5; Myfyrwyr / Students – £7)
- ◯ Grŵp canu / Singing group: £10 y person / per person neu / or £120 i grwpiau o 10 neu fwy / for groups of 10 or more.
- ◯ Parti llefaru / Recitation group: £10 y person / per person (Plant ysgol / School children – £5; Myfyrwyr / Students – £7) neu / or £120 i grwpiau rhwng 10–12 / for groups between 10–12

**Pwysig – Hunanddewisiad:** Cyfrifoldeb y grŵp neu'r unigolyn yw sicrhau hawl cyfieithu a pherfformio unrhyw ddarnau hunanddewisiad (rhagor o wybodaeth ar wefan yr Eisteddfod)
**Important – Own choice:** It is the group or individual's responsibility to obtain the rights to translate and perform any own choice piece (more information on the Eisteddfod website)

Enw a chyfeiriad arweinydd y grŵp neu'r cystadleuydd
Name and address of group leader or competitor

Ebost / Email:

Ffôn / Phone: Rhif Symudol / Mobile no.:

Rwyf i / Rydym ni yn cytuno i ddilyn y rheolau sydd yn y Rhestr Testunau (ar wefan yr Eisteddfod)
I / We agree to follow the rules included in the List of Subjects (on the Eisteddfod's website)

Dyddiad / Date Arwyddwyd / Signed

## Ffurflen Cystadlaethau Cyfansoddi
## Written Competitions Form

*Peidiwch â rhoi'r ffurflen hon yn yr amlen sydd wedi ei chau*
*Do not include this form in the sealed envelope*

**Adran Cystadlaethau Dysgwyr / Competitions in the Learners' Section**

Teitl a rhif y gystadleuaeth / Title and no. of competition

Yr wyf i, sef awdur y gwaith a gyflwynir dan y ffugenw isod, yn tystio bod fy enw a'm cyfeiriad yn yr amlen sydd wedi ei chau yn gywir, mai fi sydd wedi ysgrifennu'r gwaith a'i fod yn waith gwreiddiol, nad yw wedi ennill gwobr o'r blaen yn yr Eisteddfod Genedlaethol, nac wedi'i gyhoeddi yn rhannol nac yn gyfan. Ni fyddaf yn cyflwyno'r gwaith i gyhoeddwr hyd nes y bydd y feirniadaeth wedi'i chyhoeddi.

Os yw'r gwaith yn fuddugol yr wyf hefyd, fel perchennog yr hawlfraint, yn rhoi'r hawl i Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol gyhoeddi'r gwaith am y tro cyntaf yn ystod wythnos yr Eisteddfod, neu o fewn tri mis i ddiwrnod olaf yr Eisteddfod, heb imi dderbyn breindal a heb ymgynghori â mi. Yr wyf hefyd yn cydnabod hawliau Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol yn y gwaith yn y dyfodol yn unol ag Amodau a Rheolau Cyffredinol yr Eisteddfod ac yn benodol rheol 4.

I, the author of the work submitted under the pseudonym below, testify that my name and address included in the sealed envelope are correct, and that all work submitted is my original work, which has not previously been awarded a prize at the National Eisteddfod, or published, either partially or in full. I will not submit the work to publishers until the adjudication has been published.

As the owner of the copyright, if the work is awarded first place, I hereby authorise the National Eisteddfod Council to publish the work for the first time during the Eisteddfod week, or within three months of the last day of the Eisteddfod, without my receiving royalties and without consulting with me. I further recognise the rights of the National Eisteddfod Council with regard to the work in future in accordance with the Eisteddfod's General Terms and Conditions and specifically rule 4.

Ffugenw / Pseudonym

○ Tâl amgaeedig / Fee enclosed:

£5 (rhaid gwneud cais ar wahan ar gyfer pob cystadleuaeth – dim ond unwaith gellir cystadlu ymhob cystadleuaeth heblaw am y rhai isod / a separate application must be made for each competition except the ones listed below.

Caniateir pump o gyfansoddiadau yn yr un gystadleuaeth am £5 yn y cystadlaethau canlynol – 121, 122 a 123 / For a fee of £5, five written compositions within one competition is permitted in the following competitions – 121, 122 a 123.



| Rhif | Teitl y gystadleuaeth | Lefel | Gwobrau |
|---|---|---|---|
| **Dysgwr y Flwyddyn** | | | |
| 112 | **Tlws Dysgwr y Flwyddyn** | Unrhyw ddysgwr dros 18 oed sydd erbyn hyn yn siarad yn eithaf rhugl | **Enillydd:** Tlws a £300 **3 arall yn y Rownd Derfynol:** Tlws bach a £100 yr un |
| **Cystadleuaeth ar lwyfan y Pafiliwn** | | | |
| 113 | **Grŵp canu** rhwng 21 a 40 mewn nifer, unrhyw gân neu gyfuniad o ganeuon o'ch dewis chi, mewn unrhyw arddull hyd at 5 munud * a ** | Agored | 1.£150/2.£100/ 3.£50 |
| 114 | **Llefaru Unigol dros 16 oed** 'A gymri di Gymru?', Robat Gruffudd, A Gymri di Gymru? [Y Lolfa] | Agored | 1.£60/2.£30/ 3.£20 |
| **Cystadlaethau ar lwyfan Maes D** | | | |
| 115 | **Parti Canu** rhwng 5 a 20 mewn nifer, unrhyw gân neu gyfuniad o ganeuon o'ch dewis chi, mewn unrhyw arddull hyd at 5 munud. | Agored | 1.£100/2.£60/ 3.£40 |
| 116 | **Parti Llefaru** hyd at 12 mewn nifer, 'Idiomau', bl.8 Ysgol Gwynllyw 2006-7 — http://www.s4c.cymru/ barddplantcymru/e_cerddi_07_ gwynllyw.shtml | Agored | 1.£100/2.£60/ 3.£40 |
| 117 | **Cân**: Unawd o'ch dewis chi mewn unrhyw arddull hyd at 4 munud* | Agored | 1.£60/2.£30/ 3.£20 |
| 118 | **Sgets** hyd at 5 munud: Syrpreis | Agored | 1.£60/2.£30/ 3.£20 |
| **Cyfansoddi** | | | |
| 119 | **Y Gadair** – Cerdd ar destun 'Y Ffin' | Agored | Cadair a £75 |
| 120 | **Y Tlws Rhyddiaith** – Darn o ryddiaith, hyd at 500 o eiriau ar destun 'Pontydd' | Agored | Tlws a £75 |
| 121 | **Sgwrs rhwng dau berson ar drên** - tua 100 o eiriau | Mynediad | £50 |
| 122 | **Darn o ryddiaith**: Y Gwyliau Gorau Erioed – tua 150 o eiriau | Sylfaen | £50 |
| 123 | **Llythyr at eich cyngor lleol yn mynegi barn am ailgylchu** – tua 200 o eiriau | Canolradd | £50 |
| 124 | **Adolygiad** o unrhyw lyfr neu ffilm – tua 300 o eiriau | Agored | £50 |
| 125 | **Gwaith Grŵp neu unigol** – Casgliad o ddeunydd i ddenu ymwelwyr i'ch ardal chi mewn unrhyw ffurf | Agored | £100 |
| **Paratoi deunydd ar gyfer Dysgwyr** | | | |
| 126 | **Gwaith Grŵp neu unigol** – Paratoi pecyn o ddeunyddiau ar gyfer rhieni i ddysgu Cymraeg gyda'u plant nhw. I'w gyflwyno i'r Endid | Dysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl | £100 |

*Bydd piano ar gael ond rhaid darparu eich cyfeilydd eich hun.
**Rhaid i bob aelod fod yn ddysgwr



| No. | Title of the competition | Level | Prizes |
|---|---|---|---|
| **Learner of the Year** | | | |
| 112 | **Learner of the Year** | Any learner over 18 who speaks Welsh quite fluently | **Winner:** Trophy and £300 **3 other finalists:** Small trophy and £100 each |
| **Competition on the Pavilion Stage** | | | |
| 113 | **Singing Group** between 21 – 40 in number, any song or combination of songs of your choice, in any style * and ** | Open | 1.£150/2.£100/ 3.£50 |
| 114 | **Recitation for Individuals over 16 years old** 'A gymri di Gymru?', Robat Gruffudd, A gymri di Gymru? [Y Lolfa] | Open | 1.£60/2.£30/ 3.£20 |
| **Competitions on the stage in Maes D – all performances must be in Welsh** | | | |
| 115 | **Singing Party** between 5 – 20 in number, any song or combination of songs of your choice, in any style * and ** | Open | 1.£100/2.£60/ 3.£40 |
| 116 | **Recitation group** up to 12 in number, 'Idiomau', yr.8 Gwynllyw High School 2006-7 — http://www.s4c.cymru/ barddplantcymru/e_cerddi_07_ gwynllyw.shtml | Open | 1.£100/2.£60/ 3.£40 |
| 117 | **Song:** Solo of your choice in any style up to 4 minutes* | Open | 1.£60/2.£30/ 3.£20 |
| 118 | **Sketch** up to 5 minutes: Surprise | Open | 1.£60/2.£30/ 3.£20 |
| **Written competitions – all written work must be in Welsh** | | | |
| 119 | **The Chair** – Poem on the subject of 'The Boundary' | Open | Cadair a £75 |
| 120 | **Prose Trophy** – A piece of prose, up to 500 words on the subject of 'Bridges' | Open | Tlws a £75 |
| 121 | **A conversation between two people on a train** – about 100 words | Entry | £50 |
| 122 | **Piece of Prose:** 'The best holiday ever'– about 150 words | Foundation | £50 |
| 123 | **A letter to your local council to express opinion on recycling** – about 200 words | Intermediate | £50 |
| 124 | **Review of any book or film** – about 300 words | Open | £50 |
| 125 | **Group or individual work** – A collection of material to attract visitors to your area in any form | Open | £100 |
| **Preparing material for Learners** | | | |
| 126 | **Group or individual work** – Prepare a pack of materials for parents to learn Welsh with their children. To be submitted to the Endid | Learners and fluent Welsh speakers | £100 |

*A piano will be available but you must provide your own accompanist
**Each member must be a learner

**Eisteddfod Genedlaethol**
**Sir Fynwy a'r Cyffiniau**
**National Eisteddfod**
**Monmouthshire and District**

0845 4090 900
www.eisteddfod.org.uk

www.facebook.com/eisteddfod
@eisteddfod / @eisteddfod_eng